**Cyfarfod Pwyllgor Cymru y BBC**

**Coleg Merthyr Tudful**

**COFNODION**

**EITEMAU BUSNES**

1. Cyflwyniad, cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru
2. Adroddiad Cyfarwyddwr BBC Cymru
3. Adroddiad y Farchnad
4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd
5. Archwiliad Dwfn Chwaraeon
6. Cynulleidfaoedd
7. Cyllid
8. Unrhyw fater arall a chau'r cyfarfod

**YN BRESENNOL**

*Aelodau:*

- Michael Plaut, Cyfarwyddwr Anweithredol (Aelod dros Gymru) (Cadeirydd)
- Michael Smyth, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, Cenhedloedd
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr, BBC Cymru
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru

*Gyda:*

- Mark Grinnell, Arweinydd Gweithredol *(Ysgrifennydd)*
- Carolyn Hitt, Uwch Bennaeth Cynhyrchu Cynnwys, Cymru *(ar gyfer eitemau 5,6,7 a 8)*
- Nick Andrews, Uwch Bennaeth Comisiynu Cynnwys, Cymru *(ar gyfer eitemau 5,6,7 a 8)*
- Nia Morgan, Uwch Bartner Busnes Cyllid *(ar gyfer eitemau 5,6,7 a 8)*
- Rebecca Davis, Cynulleidfaoedd *(ar gyfer eitemau 6, 7 a 8)*

*Ymddiheuriadau:*

- Kate Phillips, Cyfarwyddwr Comisiynu, Di-sgript

COFNODION PWYLLGOR CYMRU Y BBC

13eg Mawrth 2025

**1. Cyflwyniad, cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru**

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i Goleg Merthyr am gynnal y cyfarfod.

1.2 Soniodd y Cadeirydd am yr ymgysylltu a wnaed â rhanddeiliaid ers y pwyllgor diwethaf, gan gynnwys ymweliadau â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC; mynychu Darlith Reith; y Pwyllgor Archwilio a Risg a chwrdd â staff allweddol yng Nghymru a Stiwdios BBC Millbank yn San Steffan.

1.3 Cymeradwywyd cofnodion Pwyllgor Medi heb unrhyw wrthdaro.

**2. Adroddiad Cyfarwyddwr BBC Cymru**

2.1 Diolchodd y Cyfarwyddwr i staff a myfyrwyr Coleg Merthyr, lleoliad Pwyllgor Cymru. Byddai cyfarfodydd gyda myfyrwyr a rhanddeiliaid o'r gymuned leol yn cael eu cynnal ar ôl y cyfarfod.

2.2 Bydd Tymor Merthyr BBC Cymru yn lansio yn ystod yr haf. Bydd rhaglenni arbennig ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys cyngerdd, tymhorau comedi ac archif, rhaglenni dogfen a phecyn addysgol arbennig i blant ysgolion cynradd. At hynny, bydd Any Questions ar Radio 4 yn dod o'r dref.

2.3 Cynhaliodd BBC Cymru gyfarfod o uwch dîm arweinyddiaeth y BBC yng Nghaerdydd ym mis Ionawr.

2.4 Cynhaliodd BBC Cymru gyfarfod yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng nghwmni 250 o bobl gan gynnwys y Prif Weinidog. Pwrpas y sesiwn oedd clywed barn rhanddeiliaid am Adnewyddu'r Siarter.

2.5 Mae adrannau Chwaraeon, Cenhedloedd a Chynnwys y BBC wedi cydweithio i sicrhau hawliau darlledu ac ar-lein ar gyfer gemau pêl-droed rhyngwladol y dynion ar gyfer y 18 mis nesaf. Bydd y gemau'n cael eu darlledu'n fyw, yn Saesneg ar y BBC ac ar S4C yn Gymraeg.

2.7 Clywodd y Pwyllgor y bu'n gyfnod cryf i dîm *Newyddion* S4C a'r gwaith o ohebu dramor. Anfonwyd tîm i Israel i nodi union flwyddyn ers ymosodiad 7fed Hydref a rhyfel Israel-Gaza ers hynny. Rhoddodd y tîm *Newyddion* sylw hefyd i Etholiad Arlywyddol America yn fyw o Washington DC ac o Pennsylvania. Yn fuan ar ôl hynny, cafodd aelodau tîm *Newyddion* eu hanfon i California i roi sylw i'r tanau gwyllt dinistriol yn Los Angeles.

2.8 Clywodd y Pwyllgor fod cynlluniau arbedion BBC Cymru wedi'u cyhoeddi i staff a byddant yn cael eu cyflawni drwy ddiswyddiadau gwirfoddol ym mhob achos heblaw un.

2.9 Mae tîm arweinyddiaeth Cymru wedi cymryd rhan yn Adolygiad Diwylliant Bwrdd y BBC.

2.10 Mae blaenoriaethau BBC Cymru ar gyfer 25/26 wedi'u rhannu â staff.

2.11 Mae *Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth* BBC Cymru wedi cael eu lansio, i ddathlu straeon positif o gymunedau yng Nghymru.

**3. Adroddiad y Farchnad**

3.1 Nododd y Pwyllgor bapur adroddiad y farchnad.

**4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd**

4.1 Soniodd y Cyfarwyddwr am gryfder y perthnasoedd o fewn y BBC er mwyn ariannu'r cytundebau chwaraeon diweddaraf.

4.2 Mae'r BBC yn bwriadu cyhoeddi cynllun i ragori ar feini prawf gofynnol OFCOM ar gyfer gwariant ar bortread, cynhyrchu a thalent er mwyn osgoi dibyniaeth ar ganolfan sylweddol yn unig. Byddai hyn yn cael ei drafod ym Mwrdd y BBC.

4.3 Byddai cludo radio ar rwydwaith FM yn fater i'w drafod yn un o Bwyllgorau'r dyfodol.

4.4 Trafododd y Pwyllgor y cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol wrth i'r BBC drafod adnewyddu'r Siarter Frenhinol.

4.5 Trafododd y Pwyllgor gyllid trydydd parti ar gyfer cynnwys di-sgript yng nghyd-destun yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

**5. Chwaraeon**

5.1 Clywodd y Pwyllgor drosolwg o wariant chwaraeon, cynhyrchu, craffu golygyddol a chomisiynu yng Nghymru ers ad-drefnu'r adran Chwaraeon, a drafodwyd yn y pwyllgor blaenorol.

5.2 Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch y tîm Chwaraeon am eu gwaith ar y newidiadau a gwahoddwyd y tîm Chwaraeon i wneud cyflwyniad am eu gwaith yn un o gyfarfodydd Bwrdd y BBC yn y dyfodol.

**6. Cynulleidfaoedd**

6.1 Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu'r ffigurau cynulleidfa diweddaraf a oedd yn ymwneud â Chymru.

6.2 Roedd teitlau allweddol yn ystod y chwarter blaenorol yn cynnwys *Gavin and Stacey A Fond Farewell*. Roedd rhaglenni eraill a berfformiodd yn dda yn cynnwys y gyfres ddrama *The One That Got Away* ac ymchwiliad cudd i'r asgell ddde eithafol, a berfformiodd yn dda ar-lein.

6.3 Mae ffigurau gwrando Radio Wales a Radio Cymru yn bositif yn yr arolwg cynulleidfaol diweddaraf gan RAJAR.

**7. Cyllid**

7.1 Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch y tîm Cyllid am eu gwaith ar y cynlluniau arbedion. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cyllid a'r rhagolwg diweddaraf ar gyfer BBC Cymru.

**8. Unrhyw fater arall**

8.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor ac i bawb a gyfrannodd at y cyfarfod.

8.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Nghaerdydd ar 3ydd Gorffennaf 2025.

8.4 Byddai Prif Weithredwr a Chadeirydd S4C yn cael eu gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol gydag aelodau'r Pwyllgor.

8.3 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

Daeth y cyfarfod i ben.